

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# COVID-19 Diwrnod Myfyrdod 8fed Mawrth 2026

## Mwy am y Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol

### Diolch Cenedlaethol

"Ar y Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol, mae Un Llais Cymru yn cyflwyno ei ddiolch diffuant i gynghorau cymuned a thref, clercod, cynghorwyr a gwirfoddolwyr ar draws Cymru. Gwnaeth eich presenoldeb pwyllog, arweinyddiaeth leol a gofal am eich cymunedau, yn aml y tu ôl i'r llenni ac o dan amgylchiadau anodd, wahaniaeth gwirioneddol. Mae'r diwrnod hwn yn cynnig moment i gydnabod y gyd-ymdrech honno ac i ddweud diolch."

Lyn Cadwallader
Prif Weithredwr Un Llais Cymru

Mae'r Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol yn foment i oedi, cofio a chydnabod effaith pandemig COVID-19 ar gymunedau ledled Cymru a gwledydd Prydain. Mae'n gyfle hefyd i gydnabod y gwaith tawel, cyson a helpodd cymunedau drwy'r cyfnod hwnnw — ac yn enwedig felly ymdrechion cynghorau cymuned a thref, clercod, cynghorwyr, a gwirfoddolwyr lleol a gefnogodd drigolion mewn cymaint o ffyrdd ymarferol a thosturiol.

## Ffyrdd dewisol o nodi'r diwrnod

Mae cymryd rhan ai peidio yn fater cwbl ddewisol ac nid oes unrhyw ddisgwyl ichi drefnu digwyddiadau neu weithgareddau ychwanegol.
Pan mae cynghorau yn dymuno nodi'r diwrnod, mae'r camau posib yn cynnwys::

- Cydnabyddiaeth byr ar ddechrau cyfarfod cyngor, gan gynnwys yn sylwadau agoriadol y cadeirydd
- Cynnal cyfnod o fyfyrdod tawel yng nghyfarfod mis Mawrth
- Rhannu neges fer o ddiolch i glercod, cynghorwyr neu wirfoddolwyr
- Arddangos hysbysiad neu neges syml
- Cynnwys cyfeiriad byr mewn cylchlythyr,

pan mae un wedi cael ei gynllunio'n barod
Cyfeirio pobl at weithgareddau coffa cenedlaethol neu leol

**Mae arwyddion bychan, addas yn gwbl briodol.**

### Negeseuon cyfryngau cymdeithasol



#DayOfReflection

Heddiw yw'r Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol. Cymerwn foment dawel i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod pandemig COVID-19 ac i gydnabod y caredigrwydd, y gwytnwch a'r gofal a ddangoswyd ar draws ein cymuned.

Ar y Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol, cofiwn y rhai a gollodd eu bywydau yn ystod pandemig COVID-19 a diolchwn i'n cymuned leol, gan gynnwys cynghorwyr, clercod a gwirfoddolwyr, am eu gofal a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

## "Munud o Ddiolch" Dewisol"

Efallai y bydd Cynghorau am gynnwys moment fer, ddewisol o ddiolch mewn cyfarfod o gwmpas y Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol i.

"Fel rhan o'r Diwrnod Myfyrdod Cenedlaethol, oedwn am foment i gydnabod a diolch i gynghorau cymuned a thref, clercod, cynghorwyr a gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu cyfraniad yn ystod y pandemig, ac am y gefnogaeth a roesant i'w cymunedau yn ystod cyfnod heriol iawn."

I weld enghreifftiau o Fentrau ac Adnoddau Cynghorau ewch i **Un Llais Cymru**

Cewch fwy o wybodaeth yma: Gov.UK Campaign

Mae croeso i gynghorau sy'n dymuno cymryd rhan ddefnyddio'r adnodd hwn. Nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i nodi'r diwrnod.